**Rhif: WG41120**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# **Teitl:** Camymddwyn honedig gan uwch swyddogion awdurdodau lleol

**Crynodeb:** Rydym eisiau clywed eich barn ar newidiadau arfaethedig sy'n deillio o Adolygiad Oldham

Dyddiad cyhoeddi: 18 Tachwedd 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 10 Chwefror 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Ym mis Hydref 2019 comisiynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol adolygiad o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chamymddwyn honedig gan uwch swyddogion llywodraeth leol yng Nghymru. Nod yr adolygiad oedd ystyried a yw'r trefniadau presennol yng Nghymru yn parhau i fod yn addas at y diben.<br><br>Ar ôl i'r adroddiad terfynol ddod i law, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar argymhellion gan gynnwys newidiadau posibl i Reoliadau Llywodraeth Leol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi ffurflen ymateb yr ymgynghoriad yn y ddogfen hon neu drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ein gwefan.<br><br>Gellir dychwelyd ffurflenni atom cyn 10 Chwefror 2021 drwy e-bost at:<br><br>LGD.DemocracyDiversityRemuneration@gov.wales<br><br>trwy'r post<br>Llywodraeth Cymru<br>Llywodraeth Leol a Democratiaeth<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NU<br><br>Fel arall, os ydych am drafod eich ymateb, cysylltwch â:<br><br>Lisa Weetman<br>Llywodraeth Leol a Democratiaeth<br><br>Lisa.weetman@llyw.cymru<br>03000 628081 |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill. |
| **Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg:** | |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: ico.org.uk/

**Cefndir**

Mae gan y swyddogion uchaf eu statws mewn cyngor h.y. y prif weithredwr, y swyddog monitro, a'r prif swyddog cyllid, gyfrifoldebau statudol i'w cyflawni i'w cynghorau. Gan eu bod yn gweithio gyda'r aelodau etholedig ac yn adrodd iddynt, maent yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn mewn amgylchedd gwleidyddol.

Mae'n debygol y bydd tensiynau lle bydd buddiannau'r blaid wleidyddol a buddiannau llywodraethu da yn gwrthdaro. O dan yr amgylchiadau hyn dylid amddiffyn uwch swyddogion rhag achosion disgyblu â chymhelliant gwleidyddol, gwamal neu flinderus pa n fyddent yn gweithredu yn unol â'u dyletswyddau statudol.

O'r herwydd, cyflwynwyd fframwaith cyfreithiol gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989") a oedd yn cynnwys darpariaethau ynghylch penodi a rheoli rhai o staff awdurdodau lleol a hefyd mabwysiadu rheolau sefydlog gweithdrefnol.

Mae adran 8 o Ddeddf 1989 yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n ymdrin ag achos disgyblu a diswyddiadau.

Y rheoliadau cyfredol yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (a ddiwygiwyd yn 2014) ("rheoliadau 2006").

Maent yn cynnig 'amddiffyniad statudol' i rai o brif swyddogion awdurdodau perthnasol drwy fynnu na ellir disgyblu unrhyw brif swyddog o'r fath ac eithrio o ganlyniad i argymhelliad gan Berson Annibynnol Dynodedig (PAD) yn dilyn ymchwiliad i honiadau o gamymddwyn.

**Y trefniadau presennol fel y'u nodir yn Rheoliadau 2006**

Mae'r broses sydd ar waith ar gyfer ymchwilio i gamymddwyn honedig gan uwch swyddogion fel a ganlyn:

- Pan fydd honiadau o gamymddwyn a allai arwain at gamau disgyblu wedi'u gwneud, rhaid i'r cyngor benodi pwyllgor ymchwilio i benderfynu, o fewn mis, a ddylid ymchwilio ymhellach i'r honiad.
- Os bydd y pwyllgor yn penderfynu y dylid ymchwilio ymhellach i'r honiad o gamymddwyn, rhaid i'r cyngor benodi Person Annibynnol Dynodedig (PAD) i ymchwilio i'r mater. Unwaith eto, dylai hyn ddigwydd o fewn mis a dylai'r cyngor a'r unigolyn sy'n destun ymchwiliad gytuno ar y person hwn.
- Os na fydd yn bosibl dod i gytundeb, rhaid i Weinidogion Cymru enwebu person i'w benodi'n PAD.
- Ar ôl ei benodi, mae gan y PAD nifer o bwerau cyfarwyddo, sy'n cynnwys cyfarwyddo bod yr awdurdod perthnasol yn dod ag ataliad dros dro i ben os bydd un mewn grym. Mae gan y PAD hefyd bwerau i archwilio dogfennau a'i gwneud yn ofynnol i aelodau o staff ateb cwestiynau.
- Rhaid i'r PAD ymchwilio i'r honiad a llunio adroddiad. Rhaid gosod amserlen ar gyfer yr ymchwiliad ar ddechrau'r broses. Os na all y cyngor a'r swyddog (ar ôl ymgynghori â'r PAD) gytuno ar amserlen, pennir yr amserlen gan y PAD.
- Rhaid i adroddiad y PAD i'r cyngor ddatgan barn ynghylch a yw'r dystiolaeth a gafwyd yn cefnogi unrhyw honiad o gamymddwyn yn erbyn y swyddog (ac os

felly, i ba raddau) ac argymell unrhyw gamau disgyblu sy'n ymddangos yn briodol i'r awdurdod perthnasol eu cymryd yn erbyn y swyddog perthnasol.
- Rhaid i'r cyngor ystyried adroddiad y PAD o fewn mis i'w dderbyn.

**Yr Adolygiad Annibynnol o'r Trefniadau ar gyfer Ymdrin â Chamymddwyn Honedig gan Uwch Swyddogion Awdurdodau Lleol**

Comisiynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol adolygiad annibynnol o'r trefniadau yng Nghymru. Nod yr adolygiad oedd ystyried a yw'r trefniadau presennol yn parhau i fod yn addas at y diben. Roedd yr adolygiad yn cynnwys:

- cymharu'r trefniadau yng Nghymru â'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU, ac ystyried a ddylid argymell newidiadau i Gymru;
- i ba raddau y mae'r trefniadau presennol yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu swyddogion rhag diswyddo diannod - am rannu newyddion gwleidyddol digroeso - a chynnal a gorffen prosesau yn gyflym;
- nodi gwelliannau/newidiadau - os o gwbl - i'r system bresennol sy'n cynnal diben deuol y trefniadau presennol.

Fe'i gwnaed yn glir y byddai angen cyfiawnhad cadarn dros newid ochr yn ochr ag unrhyw argymhellion.

Gellir gweld yr adolygiad llawn drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

**[Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chamymddwyn honedig gan uwch swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru]**

**Casgliadau'r adolygiad**

Er i'r adolygiad ddod i'r casgliad bod y trefniadau presennol yn parhau i fod yn addas at y diben yn gyffredinol, roedd rhai meysydd lle y cynigiwyd newidiadau gyda'r nod o wella sawl agwedd ar y trefniadau presennol.

Ar 26 Mehefin 2020 cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ddatganiad ysgrifenedig yn croesawu'r adolygiad. Cadarnhaodd y datganiad fwriad y Gweinidog i sefydlu grŵp cynghori bach yn cynnwys cynrychiolwyr Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE), Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol (ALACE), a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gytuno ar ffordd ymlaen a datblygu cynllun gweithredu.

Mae'r Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham wedi ystyried yr adroddiad a'i argymhellion ac mae gweddill y papur ymgynghori hwn yn nodi barn y Grŵp ar y meysydd gweithredu arfaethedig.

**1. Eglurhad o iaith statudol - ystyr camymddwyn**

Mae'r adolygiad yn awgrymu y dylid egluro'r diffiniad o'r term "camau disgyblu" yn Rheoliadau 2006 gan ei bod yn aneglur ar hyn o bryd a ellir diswyddo swyddog ai peidio ar sail honiadau ynghylch diffyg gallu'r swyddog i gyflawni ei rôl.

**Mae rheoliad 2 (d) yn nodi:**

"ystyr “camau disgyblu” (“disciplinary action”) yw unrhyw weithred a achosir gan gamymddwyn honedig a fuasai, o'i phrofi, yn ôl trefn arferol yr awdurdod, yn cael ei chofnodi ar ffeil bersonol yr aelod o'r staff, ac sy'n cynnwys unrhyw gynnig i ddiswyddo aelod o'r staff am unrhyw reswm ac eithrio colli swydd, afiechyd parhaol neu lesgedd meddwl neu gorff, ond nid yw'n cynnwys methiant i adnewyddu contract cyflogaeth am dymor penodol oni ymrwymodd yr awdurdod perthnasol i adnewyddu'r cyfryw gontract.”

Pwrpas y trefniadau hyn yw amddiffyn swyddogion rhag honiadau o gamymddwyn a ysgogir (yn ymwybodol neu fel arall) am fod y swyddog yn rhannu newyddion gwleidyddol annymunol, neu am fod y swyddog yn mynnu cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn modd priodol a chyfreithlon.

Nid yw'r ddeddfwriaeth hon wedi'i bwriadu i fod yn darian i amddiffyn unigolion rhag gweithredu'n briodol mewn amgylchiadau lle yr ystyrir bod ymddygiad neu alluogrwydd unigolion wedi gostwng islaw safonau busnes a dderbynnir fel arfer. Felly mae'n bwysig cael dealltwriaeth gyffredin o'r gwahaniaeth rhwng ymddygiad a chamymddwyn a galluogrwydd.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) yn diffinio camymddwyn fel sefyllfa pan fydd ymddygiad neu gamau gweithredu amhriodol gan weithiwr yn torri rheolau'r gweithle. Mae enghreifftiau o gamymddwyn yn cynnwys:

- bwlio
- aflonyddu
- gwrthod gwneud gwaith ('anufudd-dod')
- bod yn absennol heb ganiatâd (a elwir hefyd yn 'absent without leave' neu 'AWOL' yn Saesneg)

Y diffiniad o ymddygiad yw'r modd y mae person yn ymddwyn, yn enwedig mewn man penodol neu sefyllfa benodol.

Mae hwn yn fater gwahanol i alluogrwydd, sy'n ymwneud â gallu unigolyn i gyflawni'r swydd. Fel llawer o sefydliadau, mae gan lywodraeth leol drefniadau rheoli perfformiad ar wahân, sy'n cynnwys arfarnu perfformiad yn rheolaidd a chyfleoedd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd y mae angen eu gwella drwy, er enghraifft, gefnogaeth a hyfforddiant.

O ran ymddygiad neu gamymddwyn, roedd y Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham yn teimlo mai pwrpas y rheoliadau yw amddiffyn swyddogion statudol pan fyddant yn darparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas â'u dyletswyddau statudol a all wrthdaro â safbwyntiau gwleidyddol. Ni ddylai fod yn bosibl cyflwyno achos i ddiswyddo swyddog ar sail camymddwyn am roi cyngor sy'n briodol ond yn annymunol.

Teimlai'r grŵp hefyd y dylai fod gan uwch swyddogion drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith. Dyma bartner y gefnogaeth statudol a ddarperir gan reoliadau 2006 a theimlai'r grŵp y dylai llywodraeth leol hyrwyddo ac arwain arfer da ynghylch rheoli perfformiad uwch swyddogion o fewn awdurdodau i ategu unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chamymddwyn honedig.

Cytunodd y Grŵp y dylai'r rheoliadau a'r dogfennau esboniadol ategol nodi'n glir bod y rheoliadau'n darparu 'amddiffyniad statudol' dim ond yn achos camymddwyn honedig.

Byddai Gweinidogion Cymru yn croesawu eich barn ynghylch a fyddai rhagor o eglurder yn ddefnyddiol ac os felly, unrhyw awgrymiadau ynghylch y geiriad.

**2. Eglurhad o iaith statudol - dylid egluro ystyr rhoi "cosbau" ar ôl penodi PAD.**

Penodir person annibynnol dynodedig pan fydd pwyllgor ymchwilio yr awdurdod lleol yn penderfynu y dylid ymchwilio ymhellach i'r honiad o gamymddwyn. Rhan o rôl y PAD yw argymell cosbau lle bo hynny'n briodol yn dilyn ymchwiliad llawn.

Daw'r adroddiad i'r casgliad fod rhai awdurdodau lleol o'r farn y dylent allu rhoi cosbau gwahanol i'r cosbau a argymhellir gan y PAD. Mae'r rheoliad, fel y mae, yn ei gwneud yn glir mai'r unig gosb y gellir ei defnyddio yw'r un a awgrymir gan y PAD. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ddylai fod hyblygrwydd yn y broses i alluogi gwneud penderfyniadau lleol.

**Mae rheoliad 9 yn nodi:**

"Ni ellir cymryd camau disgyblu parthed pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, ei swyddog monitro neu ei brif swyddog cyllid, ac eithrio camau a ddisgrifir ym mharagraff 3, gan yr awdurdod perthnasol, neu gan bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor lle cynrychiolir yr awdurdod perthnasol neu gan unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod perthnasol, ac eithrio yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a wnaed gan berson annibynnol dynodedig dan reoliad 9 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (ymchwilio i gamymddwyn honedig)".

Yn nhrafodaethau'r Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham (ORIAG) teimlwyd nad oedd fawr o bwrpas penodi PAD pe gallai awdurdodau lleol wedyn ddiystyru ei argymhellion. Barn y grŵp oedd mai diben penodi'r PAD yw cynnal annibyniaeth; gallai dewis a dethol camau disgyblu nad yw'r person annibynnol wedi'u hawgrymu danseilio annibyniaeth y broses ac arwain at anghysondebau ledled Cymru. Felly roedd y Grŵp yn teimlo na ddylai fod unrhyw hyblygrwydd lleol ac na ddylid newid y rheoliadau presennol mewn perthynas â chymhwyso unrhyw gosb a argymhellir gan y PAD.

Croesewir eich barn ynghylch a ddylid cael mwy o hyblygrwydd i wneud penderfyniadau yn lleol i roi cosbau terfynol.

**3. Dewis PAD a Chost penodi**

Cododd adolygiad Oldham ddau fater mewn perthynas â'r PAD. Y cyntaf oedd y gost sy'n gysylltiedig â phenodi PAD. Awgrymodd unigolion a roddodd dystiolaeth i Adolygiad Oldham fod y costau cymharol uchel sy'n gysylltiedig â'r broses yn deillio o'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r PADau a benodwyd hyd yma wedi bod yn gyfreithwyr. Mae'r adolygiad yn awgrymu y gallai fod achlysuron pan na fyddai natur yr achos yn gwarantu penodi cyfreithiwr nac, yn wir, berson â chymhwyster cyfreithiol.

Ystyriodd y Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham yr opsiwn o berson heb gymhwyster cyfreithiol yn cynnal ymchwiliad. Cytunodd y grŵp y byddai'n bosibl, yn dibynnu ar yr achos ei hun, penodi PAD nad oes ganddo gymhwyster cyfreithiol ac i'r

person hwnnw gynnal ymchwiliad. Pe bai hynny'n digwydd, ystyriwyd y byddai gwneud trefniadau i sicrhau bod gan y PAD fynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol yn hollbwysig i'r broses.

Roedd yr ail fater yn ymwneud â'r dull o benodi PADau.

O ran dewis PAD, mynegwyd pryderon ynghylch yr amser a gymerir i ddewis unigolyn priodol a'r oedi o ganlyniad i ddelio â materion.

Mae'r adroddiad yn argymell y dylid cynnal dau banel neu restr o PADau yn ganolog (o bosibl gan Weinidogion Cymru neu'r Cydbwyllgor Negodi), ac y dylid penodi PADau yn awtomatig drwy system "safle tacsis" ac eithrio mewn achos o wrthdaro buddiannau. Yr awgrym yw y dylid cael un rhestr o unigolion sydd â chymwysterau cyfreithiol a rhestr arall lle nad oes gan unigolion gymwysterau cyfreithiol.

Mae'r Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham o'r farn bod hon yn ffordd gadarnhaol ymlaen ac awgrymodd y dylai'r Pwyllgor Ymchwilio benderfynu ym mhob achos pa restr i'w defnyddio ar gyfer penodi PAD ar sail cymhlethdod y materion dan sylw.

Byddai Gweinidogion Cymru yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid mabwysiadu system 'safle tacsis', a ddylid cael dwy restr, ac os caiff y dull hwn ei fabwysiadu, lle y dylid cadw'r rhestr neu'r rhestrau canolog.

Mae gan Weinidogion Cymru ddiddordeb hefyd yn eich barn ynghylch a ddylai'r pwyllgor ymchwilio, yn ogystal â phenderfynu a oes achos i'w ateb, benderfynu hefyd pa restr y dylid ei defnyddio i benodi'r PAD.

## 4. Rôl y Pwyllgor Ymchwilio

Pan fydd honiadau o gamymddwyn a allai arwain at gamau disgyblu wedi'u gwneud, rhaid i'r cyngor benodi pwyllgor ymchwilio i benderfynu a ddylid ymchwilio ymhellach i'r honiad.

**Mae rheoliad 9 yn nodi:**

"Yn ddarostyngedig i baragraff (11), ar ôl i awdurdod perthnasol ymgorffori darpariaethau yn y rheolau sefydlog yn unol â rheoliad 8, os yw'n ymddangos i'r awdurdod perthnasol bod honiad o gamymddwyn a all arwain at gamau disgyblu wedi cael ei wneud yn erbyn-

(a) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(b) ei swyddog monitro; neu

(c) ei brif swyddog cyllid,

("*y swyddog perthnasol*"), yn ôl y digwydd, rhaid i'r awdurdod perthnasol benodi pwyllgor ("*pwyllgor ymchwilio*") i ystyried y camymddwyn honedig."

Bwriedir i'r ymchwiliad hwn gael ei ddefnyddio fel rhagolwg o'r cyhuddiadau ac i benderfynu a oes achos i'w ateb. Mae'r adroddiad yn awgrymu, mewn rhai achosion, bod y pwyllgor ymchwilio yn gwneud gormod o ran ceisio mynd i'r afael â'r mater yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar a oes achos i'w ateb. Gall hyn arwain at ymchwiliadau hirfaith.

Ystyriodd yr adolygiad a ellid symleiddio'r weithdrefn drwy hepgor y cam rhagarweiniol gan y pwyllgor ymchwilio. Daeth i'r casgliad fod y cam rhagarweiniol yn bwysig gan ei fod yn fodd o ymdrin yn gyflym â rhai honiadau lle nad oes materion sy'n gofyn am ymchwiliad manwl pellach.

Mae'r Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham yn cytuno bod angen y cam rhagarweiniol hwn. Roedd y Grŵp yn glir mai dim ond cynnal ymchwiliad i weld a oes achos i'w ateb ai peidio y dylai pwyllgorau ymchwilio ei wneud. Byddai unrhyw gyfranogiad pellach gan y pwyllgor ymchwilio yn torri'r rheoliadau.

Byddai gan Weinidogion Cymru ddiddordeb mewn gwybod a ydych yn ystyried y byddai rhagor o arweiniad yn y maes hwn yn ddefnyddiol i bwyllgorau ymchwilio.

**5. Y gydberthynas rhwng ymchwiliadau PAD a phwyllgorau ymchwilio**

Canfu'r adolygiad, pan fydd pwyllgor ymchwilio yn penderfynu y dylid penodi PAD, nad yw'r wybodaeth y mae'r pwyllgor wedi'i hystyried yn cael ei darparu fel rheol i'r PAD er mwyn iddo'i chynnwys yn ei ymchwiliad. Mae'r adroddiad yn awgrymu y gall hyn arwain at ddyblygu ac, yn sgil hynny, oedi yn y broses.

Ystyriodd y Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham y mater hwn a chytuno y dylid trosglwyddo'r wybodaeth a ddefnyddir gan bwyllgorau ymchwilio i'r PAD fel rhan o'r briff cychwynnol ar gyfer yr ymchwiliad. Mae'r grŵp o'r farn y dylid diwygio'r rheoliadau presennol i fynnu bod hyn yn cael ei weithredu. Mae'r grŵp hefyd o'r farn y dylid ei gwneud yn glir nad oes disgwyl i benderfyniad y pwyllgor ymchwilio gael ei adolygu. Nid yw hyn yn atal y PAD rhag gwneud hyn os yw'n credu bodo hynny'n briodol, yn enwedig os yw'r PAD o'r farn y gallai effeithio ar ei benderfyniad terfynol

Byddai Gweinidogion Cymru yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid diwygio'r rheoliadau yn y modd hwn.

**6. Pŵer cyfarwyddo a chosbi'r PAD**

Mae rheoliadau 9(7) ac (8) yn rheoliadau 2006 yn darparu y dylai'r PAD gytuno ar amserlen ar gyfer yr ymchwiliad gyda'r awdurdod, ac os na cheir cytundeb, y dylai'r PAD osod amserlen. Fodd bynnag, mae Rheoliadau 2006 yn rhoi pwerau cyfyngedig i'r PAD weithredu i atal oedi yn y broses ymchwilio.

Mae sawl rheswm dros oedi yn ystod yr ymchwiliadau, gan gynnwys peidio â bod eisiau clywed yr achos yn absenoldeb y sawl sy'n destun ymchwiliad.

Cytunodd y Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham y dylai'r PAD allu rheoli'r amserlen ac y dylid rhoi pwerau iddo alluogi hynny i ddigwydd. Ystyriodd y grŵp hefyd a

ddylai'r PAD gael y pŵer i barhau â'i ymchwiliad pan nad yw'r sawl sy'n destun ymchwiliad yn cysylltu ag ef. Teimlai'r grŵp fod rhai amgylchiadau lle y byddai hyn yn briodol ac y dylid newid y trefniadau i ddarparu ar gyfer y dull hwn a nododd fod yr arfer eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn achosion sifil a throseddol eraill ledled Cymru. Roedd y grŵp hefyd o'r farn y gallai rhagor o arweiniad fod yn ddefnyddiol.

Byddai gan Weinidogion Cymru ddiddordeb yn eich barn ynghylch a ddylid rhoi pwerau ychwanegol i'r PAD reoli'r amserlen ac yn benodol i fwrw ymlaen yn absenoldeb y sawl sy'n destun ymchwiliad.

**7. Rhyngweithio ag ymchwiliadau allanol**

Weithiau gall ymchwiliadau allanol i'r mater dan sylw arwain at oedi cyn i'r PAD gymryd camau.

Dangosodd tystiolaeth yn yr adolygiad y gall ymchwiliadau allanol achosi oedi i weithdrefnau PAD. Nid yw'n bosibl i Reoliadau 2006 ddarparu ar gyfer y llu o wahanol sefyllfaoedd y gallai ymchwiliadau allanol arwain atynt.

Teimlai'r Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham y bydd gan yr awdurdod neu'r PAD, mewn rhai amgylchiadau, ddisgresiwn i barhau â'u hymchwiliadau er y gallai asiantaethau eraill ymwneud â'r mater. Bydd hyn yn dibynnu ar ffeithiau penodol e.e. pe bai'r heddlu'n gofyn i'r PAD roi'r gorau i'w ymchwiliad, byddai'n anarferol i'r weithdrefn PAD barhau. Ystyriodd y Grŵp hefyd yr angen i ystyried barn y sawl sy'n destun ymchwiliad os yw'n rhoi rhesymau dros beidio â bod eisiau i'r achos barhau e.e. rhag argyhuddo ei hun mewn achos troseddol.

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich barn ynghylch a fyddai canllawiau ychwanegol ynghylch yr amgylchiadau pan ddylai / na ddylai ymchwiliadau barhau yn ddefnyddiol.

**8. Rhyngweithio â thelerau/polisïau cytundebol**

Yn ogystal â rheolau sefydlog mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd ystyried telerau a pholisïau cytundebol. Mae'n ymddangos bod meysydd lle mae gwahaniaethau rhwng y polisïau hyn neu lle maent yn gwrthdaro â'i gilydd.

Yn ystod yr adolygiad clywyd peth tystiolaeth am wrthdaro rhwng hawliau cytundebol swyddogion, rheolau sefydlog awdurdodau a Rheoliadau 2006 sy'n cymhlethu materion ac sy'n debygol o ychwanegu oedi a chost.

Teimlai'r Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham na ddylai rheolau sefydlog ddiystyru telerau ac amodau cytundebol. Nid oedd diwygio rheoliadau i gwmpasu'r holl ddigwyddiadau posibl o ran termau ac amodau contractau yn cael ei ystyried yn ymarferol. Teimlai'r Grŵp mai maes gweithredu allweddol fyddai adolygu cyfansoddiad enghreifftiol Cymru gyfan i weld a oes angen newidiadau er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu ledled Cymru a lleihau meysydd o wrthdaro rhwng rheolau sefydlog a thelerau ac amodau.

Byddai Gweinidogion Cymru yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid cynnal adolygiad o gyfansoddiad enghreifftiol Cymru gyfan, ac a ddylai gynnwys gofyniad na ddylai unrhyw reolau sefydlog yn y dyfodol wrth-ddweud meysydd eraill sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

**9. Cynrychiolaeth gyfreithiol**

Ar hyn o bryd mae gan uwch swyddogion a phartïon eraill hawl i gael eu cynrychioli yn ystod unrhyw ran o'r broses.

Ystyriodd yr adolygiad a ddylid gwahardd Uwch Swyddogion a phartïon eraill rhag cael cynrychiolaeth gyfreithiol mewn gwrandawiadau neu mewn rhannau eraill o'r weithdrefn PAD er mwyn lleihau costau ac oedi.

Trafododd y Grŵp Cynghori ar Weithredu Adolygiad Oldham yr awgrym hwn a chytunwyd bod cynrychiolaeth gyfreithiol yn hanfodol yn y broses gan y byddai dileu'r hawl hon yn arwain at danseilio hawl yr Uwch Swyddog i wrandawiad teg.

Mae Gweinidogion Cymru yn cytuno ac nid ydynt yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r agwedd hon ar y trefniadau presennol.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad -** Ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chamymddwyn honedig gan uwch swyddogion awdurdodau lleol (Adolygiad Oldham)

**Enw:**

**E-bost:**

**Rhif ffôn:**

**Eich cyfeiriad:**

**Eich cod post:**

**Sefydliad (lle bo'n berthnasol):**

**Cwestiwn 1:** Mae'n amlwg y dylid defnyddio "camau disgyblu" ar gyfer materion yn ymwneud â chamymddwyn yn unig. Dylai'r rheoliadau ymwneud ag ymddygiad uwch swyddogion yn unig. Dylid ymdrin â materion sy'n ymwneud â pherfformiad yn lleol fel y cytunwyd gan bolisïau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai llywodraeth leol ddatblygu canllawiau arfer da ar reoli perfformiad ar gyfer uwch swyddogion. Byddai hyn yn helpu i leihau'r dryswch ynghylch yr hyn y gellir defnyddio camau disgyblu, drwy'r rheoliadau hyn, ar eu cyfer.

Byddai Gweinidogion Cymru yn croesawu eich barn ynghylch a fyddai rhagor o eglurder yn ddefnyddiol yn y rheoliadau a'r dogfennau cefnogi o ran yr amgylchiadau y maent yn berthnasol iddynt, ac os felly, unrhyw awgrymiadau ynghylch y geiriad.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3:** Dylid dilyn y gosb a argymhellir gan y PAD – Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno? Os ydych chi'n anghytuno byddai'n ddefnyddiol i chi gynnwys gwybodaeth i gefnogi eich ateb

**Cwestiwn 4:** A ddylid penodi person heb gymhwyster cyfreithiol mewn rhai achosion - dylid/na ddylid. Os 'dylid', a ddylai gael mynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol?

**Cwestiwn 5:** A ddylid diwygio'r rheoliadau i alluogi i'r Pwyllgor Ymchwilio benderfynu a ddylid penodi PAD â chymhwyster cyfreithiol neu heb gymhwyster cyfreithiol yn y cam ymchwilio rhagarweiniol. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno? Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 6:** A ddylid diwygio'r rheoliadau fel bod y PAD, p'un a oes ganddo gymhwyster cyfreithiol ai peidio, yn cael ei benodi ar "sail safle tacsis" i sicrhau tegwch a didwylledd yn y broses. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno? Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 7:** Rôl y Pwyllgor Ymchwilio yw canfod a oes achos i'w ateb ac, os oes, a oes angen ymchwilio ymhellach iddo. Nid rôl y Pwyllgor Ymchwilio yw ymchwilio i'r achos yn fwy manwl. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno? Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 8**: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gwaith a wneir gan y pwyllgor ymchwilio gael ei rannu gyda'r PAD i osgoi dyblygu ymdrech? Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 9:** A ddylai'r rheoliadau a/neu'r wybodaeth gefnogi sicrhau bod gan y PAD bwerau penodol i gymryd camau sy'n briodol yn eu barn nhw i sicrhau bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo'n effeithlon os bydd methiant i gydymffurfio ag amserlen? Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 10:** Ni ddylid gohirio'r ymchwiliad am gyfnod amhenodol. Os yw'r broses wedi cael ei gohirio am gyfnod hir oherwydd nad yw'r person sy'n destun ymchwiliad wedi ateb neu os yw'n ymddangos ei fod yn ceisio oedi'r broses, awgrymir y dylai'r PAD allu parhau â'r gwrandawiad yn absenoldeb yr unigolyn sy'n destun ymchwiliad. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno?

**Cwestiwn 11:** Os bydd ymchwiliadau allanol yn gwneud cais i atal y broses PAD, yna dylid ystyried hynny. Dylid ystyried sylwadau gan yr unigolyn sy'n destun ymchwiliad hefyd. Fodd bynnag, dylai'r PAD gael cyfle i ofyn i'r penderfyniad ar ohirio'r broses gael ei adolygu yn unol ag amserlen y dylid ei ystyried ar gyfer pob achos unigol. Dylid cofnodi'r rhesymeg dros beidio â pharhau, pa bynnag benderfyniad a wneir. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno?

**Cwestiwn 12 –** O ran y rhyngweithio rhwng rheolau sefydlog a thelerau ac amodau cytundebol, ydych chi'n cefnogi adolygiad o'r cyfansoddiad enghreifftiol?

**Cwestiwn 13**: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai ymgynghori ar yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chamymddwyn honedig gan uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol (Adolygiad Oldham) yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 14**: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 15**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

☐